# Cyngor Bro Morgannwg Gwasanaethau Cymdeithasol: Taliadau Uniongyrchol

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

| | |
|---|---|
| **Rhif y Fersiwn:** | **1.0** |
| **Statws:** | **Cymeradwywyd** |
| **Math:** | **Cyhoeddus** |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | **22/05/2025** |
| **Cyswllt y Fro:** | |
| | **Amy Reed, Rheolwr y Tîm Sicrwydd Ansawdd a Chanlyniadau Gwasanaeth** |
| | **Areed@valeofglamorgan.gov.uk** |

Cynnwys


**1. Introduction and Aims** ........ 2

**2. Legislative Context** ........ 2

**3. Context and Scope** ........ 3

**4. Principles** ........ 5

**5. Standards** ........ 11

**7. Summary of Key Duties and Procedure** ........ 11

**8. Policy Approval and Review** ........ 13

**9. Atodiad** ........ **11**


### Fersiynau blaenorol

| Fersiwn | Statws | Disgrifiad | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| 1 | Wedi ei ddisodli | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

*Gallai dogfennau sydd wedi'u hargraffu neu eu lawrlwytho fod yn hen. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn darllen y dogfennau mwyaf diweddar a chyfredol sydd ar gael ar y safle mewnrwyd leol neu Sharepoint.*

## 1. Cyflwyniad a Nodau

.
Taliadau uniongyrchol yw taliadau a wneir i bobl a fyddai'n gymwys i dderbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i gynnig taliadau (Taliadau Uniongyrchol) ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth yn dilyn asesiad o angen. Bydd taliadau uniongyrchol fel arfer yn cael eu cynnig i bawb sy'n gymwys ac sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd angen gwasanaeth. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio i roi'r dewis a'r rheolaeth i bobl dros eu bywydau eu hunain drwy gynnig dewis amgen i wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu darparu neu eu comisiynu gan Gyngor Bro Morgannwg.

Caiff taliadau eu gwneud yn uniongyrchol i berson neu ei gynrychiolydd e.e. Person Addas. Mae'n defnyddio'r arian i drefnu ei ofal neu ei gymorth ei hun mewn ffordd sy'n addas iddo, gan ei alluogi i ddewis pwy sy'n darparu'r cymorth, a ble a phryd mae'n cael ei ddarparu.

Nid yw taliadau uniongyrchol yn fath o incwm. Caiff taliad uniongyrchol ei darparu i alluogi unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth cymwys, neu ofalwr person sydd ag anghenion gofal a chymorth, i gyflawni ei ganlyniadau lles sydd wedi'u nodi yn ei gynllun gofal a chymorth. Maent wedi'u dylunio i roi mwy o gymorth a rheolaeth i unigolion dros eu gofal a'u cymorth. Gall fod amgylchiadau (oherwydd pryderon diogelu neu os oes risg o dwyll yn bresennol) lle na fyddai taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried yn briodol.

Mae'r polisi hwn wedi'i lywio drwy ymgynghori â swyddogion a'r rhai sy'n derbyn taliad uniongyrchol ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi derbyn taliad uniongyrchol yn y gorffennol ym Mro Morgannwg.

## 2. Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi'r pŵer cyfreithiol i'r Cyngor wneud taliadau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a phlant, ac anghenion cymorth gofalwyr. Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu taliadau uniongyrchol yn cyd-fynd â Chod Ymarfer (Rhan 4 – Diwallu Anghenion) y Ddeddf, sy'n nodi hawliau a chyfrifoldebau pobl i dderbyn a rheoli taliadau uniongyrchol, a gellir dod o hyd iddo yma: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)

Wrth ddarparu taliadau uniongyrchol, mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd hefyd i ddiogelu ei unigolion o dan Ran 7 Adran 131(1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud neu gychwyn ymholiadau y maent yn ystyried sy'n angenrheidiol i benderfynu a yw unigolyn mewn perygl, ac i benderfynu ar y camau y dylid eu cymryd, os oes angen gweithredu.

Mae polisi'r Cyngor hefyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus wneud popeth o fewn eu gallu i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r polisi hefyd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 3. Cyd-destun a Chwmpas

| | |
|---|---|
| **Cymhwysedd** | Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg yn ystyried darparu taliadau uniongyrchol tuag at gost diwallu anghenion cymwys unigolyn am ofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:<br><br>• Adran 50 – i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn.<br>• Adran 51 – i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn.<br>• Adran 52 – i ddiwallu anghenion cymorth gofalwr di-dâl.<br><br>Mae'n rhaid i ni gynnig taliadau uniongyrchol i unigolyn i ddiwallu rhai neu bob un o'i anghenion asesedig cymwys yn yr achosion canlynol:<br><br>• Rydym yn fodlon bod taliadau uniongyrchol yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion.<br>• Mae gan yr unigolyn y galluedd meddyliol a gall reoli taliad uniongyrchol, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda chymorth.<br>• Nid oes gan yr unigolyn alluedd meddyliol priodol, ond mae person addas wedi'i benodi o dan *Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005* i wneud penderfyniadau ar ei ran.<br><br>Pan fo'r gwasanaeth(au) yn cael ei brynu/eu prynu drwy daliadau uniongyrchol, mae’n rhaid i ni fod yn fodlon bod y gwasanaeth a ddarperir yn diwallu anghenion y person a aseswyd yn effeithiol os yw'n 18 oed neu'n hŷn neu, pan fo'r gwasanaeth ar gyfer plentyn sydd angen gofal a chymorth, rydym yn fodlon bod y gwasanaeth yn diogelu lles y plentyn.<br><br>Dim ond yn yr achosion canlynol y bydd taliadau uniongyrchol yn cael eu darparu: |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r unigolyn yn cytuno i ddefnyddio'r arian i sicrhau gwasanaethau wedi'u nodi yn ei Gynllun Gofal a Chymorth yn unig.<br><br>• Os yw'r unigolyn yn 18 oed neu'n hŷn, mae wedi cyflwyno digon o wybodaeth i ganiatáu i asesiad ariannol gael ei gwblhau, i benderfynu a oes angen iddo gyfrannu at gostau.<br><br>• Os yw'r unigolyn yn 18 oed neu'n hŷn, mae'n cytuno i dalu unrhyw gyfraniad a aseswyd i'r cyfrif taliadau uniongyrchol. |
| **Eithriadau** | Efallai y byddwn yn gwrthod taliadau uniongyrchol i unigolyn sydd wedi'i osod o dan amodau neu ofynion penodol gan y llysoedd fel y nodir yn Rheoliad 14 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015.<br><br>Mae adran 47 Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atal awdurdodau lleol rhag diwallu anghenion drwy ddarparu gofal iechyd, oni bai y byddai gwneud hynny'n achlysurol (yn digwydd fel mân ychwanegiad at rywbeth arall) neu'n ategol (darparu cymorth angenrheidiol i'r prif weithgareddau) i wneud rhywbeth arall i ddiwallu anghenion dinesydd. O ganlyniad, mae cyfyngiad o'r fath yn berthnasol i ddarparu taliad uniongyrchol.<br><br>Nid ydym yn gallu cynnig taliadau uniongyrchol i ofalwyr maeth. |
| **Meddyginiaeth** | Dylid darparu cymorth meddyginiaeth dim ond pan fo hynny wedi'i nodi ar gynllun gofal a chymorth y person a phan fo gwneud hynny'n ategol ac yn gysylltiedig â threfniadau gofal eraill.<br><br>Ni ddylai Cynorthwywyr Personol (CP) taliadau uniongyrchol fod yn gweinyddu unrhyw feddyginiaeth i unigolion oni bai eu bod wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ac wedi eu cymeradwyo gan weithiwr proffesiynol meddygol.<br><br>Dylai CP taliadau uniongyrchol annog unigolion yn unig a dylent gefnogi gyda meddyginiaeth dim ond pan fo'r Yswiriant Meddygol angenrheidiol ar waith gyda'r hyfforddiant meddygol angenrheidiol.<br>Gellir trefnu taliadau uniongyrchol lle mae angen wedi'i asesu y gellir ei reoli'n ddiogel drwy ddarparu'r hyfforddiant a'r yswiriant angenrheidiol i alluogi cyflogi gofalwyr neu gynorthwywyr personol.<br><br>Pan fo disgwyliad y gallai fod angen CP ar berson i weinyddu meddyginiaeth frys, mae'n rhaid i'r CP fod wedi'i hyfforddi'n benodol gan y gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol sy'n goruchwylio'r angen clinigol hwn ac mae'n rhaid nodi hyn yn y cynllun gofal. |

| | |
|---|---|
| | |

## 4. Egwyddorion

Mae dull y Cyngor o ymdrin â thaliadau uniongyrchol wedi'i seilio ar bedair egwyddor: -

- Hyrwyddo'r defnydd o daliadau uniongyrchol a helpu pobl i reoli eu gofal a'u cymorth.

- Cynnwys pobl yn y broses o lunio'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn.
- Annog pobl i ddod o hyd i ffyrdd creadigol, hyblyg ac arloesol o gyflawni eu canlyniadau a'r hyn sy'n bwysig iddynt ar gyfer eu hannibyniaeth a'u lles.

- Ystyried y cymorth presennol y gallai pobl fod yn ei gael.

Ein huchelgais:

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud pobl yn ymwybodol o fanteision taliadau uniongyrchol. Bydd y Cyngor yn codi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol, trwy hyrwyddo eu defnydd, a thrwy eu defnyddio mewn ffyrdd mwy creadigol a hyblyg i ddiwallu anghenion pobl.

- Bydd y Cyngor yn defnyddio taliadau uniongyrchol fel dull rhagweithiol o gefnogi unigolion, gan helpu i atal eu hanghenion rhag gwaethygu neu eu hamgylchiadau rhag dirywio a gwella canlyniadau hefyd. Trwy rymuso unigolion gyda thaliadau uniongyrchol, rydym yn anelu at wella eu canlyniadau a gwella ansawdd eu bywyd cyffredinol.

- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan bobl anghenion gwahanol, o anghenion byrdymor i'r rhai sy'n fwy cymhleth a hirdymor. Efallai y bydd angen gofal a chymorth ar berson ei hun, neu i'w gefnogi fel gofalwr di-dâl i rywun sydd ag anghenion gofal a chymorth.

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gofal cymdeithasol effeithiol a/neu gymorth i bawb sydd ei angen ac sy'n gymwys i’w gael – oedolion, plant, teuluoedd a gofalwyr. Nod y Cyngor yw i bobl fyw mor annibynnol â phosibl, gyda chymorth neu hebddo, a bod yn gymaint o ran o fywyd teuluol a chymunedol ag y dymunant fod, ac ymgysylltu â gwaith, addysg a hamdden pan fo hynny’n bosibl.

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu a fydd darparu gofal a/neu gymorth yn cynorthwyo person i gyflawni'r canlyniadau personol y mae’n dymuno eu cyflawni ar gyfer ei les. Wrth gwblhau asesiad, mae pedwar peth sy'n cael eu hystyried:

- Amgylchiadau'r person ac os yw ei angen am ofal a chymorth yn deillio o'r hyn a nodir yn y gyfraith. Mae'r gyfraith yn nodi mathau gwahanol o amgylchiadau ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr.

- A yw’r angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlyniadau a nodir yn y gyfraith, e.e. y gallu i gynnal hunanofal neu arferion domestig. Mae'r gyfraith yn nodi mathau gwahanol o amgylchiadau ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr.

- Os nad yw’r person yn gallu diwallu’r angen ar ei ben ei hun, neu gyda gofal a chymorth pobl eraill sy'n gallu neu sy'n barod i'w darparu, neu gyda chymorth gwasanaethau eraill yn y gymuned. Ar gyfer plentyn, mae'r amod yn cael ei fodloni os yw'r angen yn un na all y plentyn, rhieni'r plentyn, nac unrhyw un arall mewn rôl rhiant ei ddiwallu naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'i gilydd.

- Mae'r person yn annhebygol o gyflawni'r canlyniadau personol y mae’n dymuno eu cyflawni oni bai bod y Cyngor yn darparu neu’n trefnu gofal a chymorth drwy gynllun gofal a chymorth a/neu yn galluogi'r angen i gael ei ddiwallu drwy wneud taliadau uniongyrchol.

Pan fo rhywun yn gymwys i gael gofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, bydd y Cyngor yn treulio amser gyda’r unigolyn neu ei gynrychiolydd i'w helpu i benderfynu pa ofal sydd orau a sut y gellid ei ddarparu, gan gynnwys yr opsiwn o ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

Bydd y Cyngor yn:

- Cymryd amser i gael gwybod beth sy'n bwysig i bob person a beth mae’n dymuno ei gyflawni, i wella ei les.

- Cynnig taliadau uniongyrchol fel opsiwn cyfartal ochr yn ochr â ffyrdd eraill o ddarparu gofal a/neu gymorth.

- Cynnig taliadau uniongyrchol lle gall helpu i wella canlyniadau unigolyn, i atal anghenion unigolyn rhag cynyddu, neu ei sefyllfa rhag gwaethygu. Nod hyn yw sicrhau bod y cyngor a'r cymorth cywir ar gael pan fydd eu hangen.

- Esbonio popeth y mae angen i berson ei wybod am daliadau uniongyrchol ac ateb pob cwestiwn. Bydd y Cyngor hefyd yn esbonio pa gymorth a chefnogaeth sy'n cael eu darparu drwy gydol yr amser y mae rhywun yn derbyn taliadau uniongyrchol.

| | |
|---|---|
| **Hyfforddiant** | Mae modd cyrchu hyfforddiant ar-lein drwy'r ddwy ddolen:<br><br>Modiwlau dysgu \| Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Cyflwyniad i ofal cymdeithasol \| Gofalwn Cymru<br><br>Os oes angen hyfforddiant amgen, gallwch gysylltu â'r tîm Taliadau Uniongyrchol a fydd yn gallu gwneud trefniadau. |
| **Pontio** | Bydd y Gwasanaethau Oedolion yn cwblhau asesiad ar gyfer plentyn sy'n agosáu at ei ben-blwydd yn 18 oed. Os yw'n gymwys, bydd yr unigolyn yn destun asesiad ariannol.<br><br>Gall y Gwasanaethau Oedolion gwblhau asesiad gofalwyr gyda gofalwr di-dâl sy'n pontio o’r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ar neu ar ôl pen-blwydd unigolyn yn 18 oed. |
| **Gwybodaeth a Chymorth** | Mae’n rhaid i ni roi gwybodaeth a chymorth priodol a hygyrch i unrhyw un sy'n ystyried taliadau uniongyrchol.<br><br>Mae’n rhaid i ni ddarparu gwasanaethau cymorth lleol sy'n gallu darparu'r cymorth sydd ei angen ar unigolyn i dderbyn a rheoli taliad uniongyrchol, gan gynnwys cyflogi staff. |
| **Gallu i Reoli** | Mae’n rhaid i ni wneud yn siŵr bod unigolion yn gallu rheoli pob agwedd ar eu taliadau uniongyrchol a lle mae anawsterau yn cael eu nodi, darparu'r lefel gywir o gymorth i oresgyn hyn.<br><br>Os nad oes gan yr unigolyn alluedd, byddwn yn sicrhau bod buddiannau gorau’r unigolyn yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw pob ystyriaeth arall a bod y person addas yn gallu rheoli'r taliadau uniongyrchol, gyda neu heb gymorth. |
| **Person Addas** | Os yw'n cael ei asesu bod yr unigolyn â diffyg galluedd, byddwn yn edrych ar atebion amgen, gan gynnwys 'person addas'. Bydd person addas yn rheoli'r taliad uniongyrchol ar ran yr unigolyn.<br><br>Gall person addas gael ei benodi naill ai gennym ni, llys neu gallai fod yn rhywun y mae'r unigolyn yn ei ddewis i weithredu ar ei ran. |

| | |
|---|---|
| | Byddwn dim ond yn ystyried yr opsiwn hwn os yw'r person addas:<br><br>• Yn gallu rheoli a deall y taliadau uniongyrchol naill ai ar ei ben ei hun neu gyda chymorth; a<br>• Yn cadw buddiannau gorau'r unigolyn mewn cof; ac<br>• Mae modd diwallu anghenion gofal a chymorth a chanlyniadau personol yr unigolyn gyda thaliadau uniongyrchol yn cynnwys person addas<br><br>Ni all person addas fod yn:<br><br>• Rhywun a fyddai â gwrthdaro buddiannau<br>• Cyngor Bro Morgannwg<br>• Darparwr Cymorth Taliadau Uniongyrchol<br>• Y cynorthwyydd personol a gyflogir trwy'r taliadau uniongyrchol<br>• Gofalwyr bywydau a rennir<br>• Gofalwr maeth<br><br>Byddwn yn rhoi gwybodaeth sy'n nodi'r hyn y mae derbyn taliadau uniongyrchol yn ei olygu i'r person addas fel ei fod yn deall yn llawn bod ganddo gyfrifoldeb am wneud y trefniadau i gael y gofal a'r cymorth i'r unigolyn y mae'n gweithredu ar ei ran. |
| **Cyflogi staff** | Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi staff, gyda rhai eithriadau, fel asiantaethau gofal neu ficrofentrau.<br><br>Os oes angen, gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i gomisiynu gwasanaethau gan gynnwys asiantaethau gofal neu ficrofentrau.<br><br>O dan Reoliad 6 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015, gallwn ystyried defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu perthynas unigolyn sy'n byw yn yr un cartref. Byddwn yn ystyried yr opsiwn hwn dim ond os yw'n angenrheidiol i hyrwyddo lles yr unigolyn.<br><br>Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud mewn trafodaeth gyda'r unigolyn a'r perthynas ac mae'n rhaid iddo gael ei gytuno gan Reolwr Gweithredol.<br><br>Wrth ystyried defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu perthnasau nad ydynt yn byw gyda'r unigolyn, byddwn yn rhoi cyngor a gwybodaeth glir am effaith hyn ar berthynas yr unigolyn i sicrhau nad oes unrhyw ddibyniaeth, gwrthdaro na materion diogelu.<br><br>Ystyr perthynas yng nghyd-destun y polisi hwn yw:<br><br>• Priod neu bartner sifil |

| | |
|---|---|
| | • Person sy'n byw gyda'r unigolyn fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil<br>• Rhiant, rhiant-yng-nghyfraith neu lys-riant<br>• Mab, merch,<br>• Mab-yng-nghyfraith neu ferch-yng-nghyfraith<br>• Llysfab neu lysferch<br>• Brawd neu chwaer<br>• Modryb neu ewythr<br>• Mam-gu/tad-cu neu<br>• Briod neu bartner sifil unrhyw un o'r perthnasau yn y rhestr hon.<br><br>Os yw'r perthynas eisoes yn darparu gofal a chymorth fel gofalwr di-dâl, byddwn yn cwblhau asesiad gofalwr i ystyried ei anghenion cymorth cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.<br><br>Byddwn yn rhoi gwybodaeth a chymorth i'r unigolyn i esbonio ei gyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr trwy ein Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol.<br><br>**Prynu gofal trwy asiantaethau gofal**<br><br>Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gofal gan asiantaeth/microfenter. Gall hyn fod yn well i'r unigolion hynny nad oes hyder ganddynt i gyflogi rhywun yn breifat neu sy'n dymuno osgoi'r cyfrifoldeb o gyflogi eu staff eu hunain yn uniongyrchol. Efallai y bydd yr unigolion hynny sy'n eisiau cyflogi CPau yn dymuno defnyddio asiantaeth/microfenter fel cynllun wrth gefn.<br><br>Yn unol ag egwyddorion taliadau uniongyrchol, ni all Cyngor Bro Morgannwg argymell asiantaethau unigol gan y dylai hyn fod yn ddewis i'r unigolyn. Fodd bynnag, gellir rhoi cyngor priodol yn y maes hwn ynglŷn â'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan unrhyw asiantaeth/microfenter, cwestiynau i'w gofyn ac ati. Efallai y bydd yr unigolyn yn cael cynnig cyngor ar ble i chwilio am asiantaethau gofal sydd ar gael yn ei ardal gan gynnwys chwilio yn ei gyfeiriadur lleol am asiantaethau gofal amgen, a allai weddu'n well i'w anghenion.<br><br>Dylid ei gwneud yn glir bod unigolion yn gyfrifol am reoli'r gwasanaethau gofal a chymorth a dderbynnir a sicrhau bod manylion eu contract yn rhesymol ac yn briodol i ddiwallu eu hanghenion.<br><br>Bydd y gweithiwr perthnasol yn rhoi gwybod i'r unigolyn am y cyfraddau fesul awr y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn eu hariannu wrth brynu gofal gan asiantaeth/microfenter. Os yw'r unigolyn yn dymuno cyflogi asiantaeth/microfenter gyda chyfradd uwch yr awr, mae'n rhaid gwneud yn glir iddo fod yn rhaid iddo dalu'r gwahaniaeth o'i gronfeydd personol ei hun. Wrth wneud penderfyniad o'r fath, dylai'r unigolyn ystyried effeithiau hirdymor |

| | |
|---|---|
| | ymrwymiad ariannol o'r fath a fforddiadwyedd cynnydd yn y dyfodol y gellir ei ddisgwyl yn flynyddol.<br><br>Pan fydd person yn cydsynio i dderbyn taliadau uniongyrchol, mae wedyn yn gyfrifol am sicrhau cymorth a chefnogaeth i safon y mae'r unigolyn a Chyngor Bro Morgannwg yn ei hystyried yn ddigonol. Mae'n rhaid i staff gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), a dylai unrhyw asiantaeth a ddefnyddir fod wedi'i hachredu neu ei chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yn achos microfenter, byddai angen iddi fod wedi'i chynnwys yn y Cyfeiriadur Microfentrau. |
| **Diogelu** | Mae diogelu unigolion rhag sefyllfaoedd sy'n eu rhoi mewn perygl o gamdriniaeth, niwed, esgeulustod neu gam-fanteisio yn bryder sylweddol i Fro Morgannwg. Mae diogelwch mewn trafodiadau a phob maes arall o daliadau uniongyrchol yn hanfodol ac mae asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â nhw yn hanfodol. Mae'n rhaid i'r staff gofal cymdeithasol ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ar Ddiogelu. Mae'r holl bolisïau perthnasol i'w gweld ar dudalen we Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro.<br><br>Bydd y Person Addas enwebedig sy'n rheoli'r taliad uniongyrchol yn sicrhau, wrth gyflogi unrhyw un a fydd yn darparu cymorth heb oruchwyliaeth i blant ifanc neu oedolion mewn perygl, ei fod yn cynnal y gwiriad GDG manwl i sicrhau nad oes gan y person unrhyw euogfarnau troseddol perthnasol a fyddai'n ei atal rhag gweithio gyda phlant neu oedolion. Mae'n rhaid cwblhau hyn a derbyn GDG clir cyn dechrau cyflogaeth. Mae'n rhaid i'r oedolyn, gofalwr, gofalwr ifanc, rhiant plentyn ag anghenion ychwanegol, person addas neu sefydliad rannu gwybodaeth â thîm taliadau uniongyrchol y Cyngor pan fo pryderon am wybodaeth ar y gwiriad GDG a allai arwain at risg i'r oedolyn neu'r plentyn. Bydd yn rhaid asesu risg unrhyw wiriadau GDG nad ydynt yn glir cyn y gall cyflogaeth ddechrau. Os yw'r Person Addas yn camreoli'r taliad uniongyrchol, bydd y Cyngor yn ymchwilio i sut mae hyn wedi digwydd. Bydd camdriniaeth ariannol yn cael ei hystyried yn bryder diogelu. |
| **Asesiad Ariannol** | Pan fydd angen cyfraniad ariannol gan yr unigolyn o bosibl, byddwn yn trefnu i asesiad ariannol gael ei gynnal pan fo hyn yn ofynnol o dan Ran 5 o'r Ddeddf. |
| **Adolygiadau** | Gallwn ni, neu'r unigolyn, ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg.<br><br>Mae'n rhaid i ni adolygu'r trefniadau taliadau uniongyrchol heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl y taliad cyntaf ac o leiaf bob 12 mis wedi hynny. |

| | |
|---|---|
| **Ad-dalu neu stopio taliadau uniongyrchol** | Efallai y byddwn yn stopio'r taliad uniongyrchol a gofyn am ad-daliad o ran o'r taliadau uniongyrchol neu'r cyfan os nad yw unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb taliad uniongyrchol yn cael eu bodloni.<br><br>Byddwn yn ystyried amgylchiadau'r unigolyn gan gynnwys:<br><br>• Lle mae achos o dwyll mewn perthynas â'r cyfrif taliadau uniongyrchol wedi digwydd.<br>• Ystyriaethau caledi.<br>• Rhesymau dilys dros gronfeydd heb eu gwario, fel rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n weddill sy'n gofyn i unigolyn adeiladu gwarged ymddangosiadol (e.e. taliadau cyflogaeth cyfnodol at ddibenion treth neu yswiriant gwladol).<br>• Mewn achos lle nad yw canlyniadau asesedig yn cael eu bodloni.<br>• Mewn achos lle na ellir diwallu anghenion unigolyn mwyach gyda gofal a chymorth a ddarperir gan y gwasanaethau cymdeithasol a lle maent yn dod o dan gylch gorchwyl y GIG.<br>• Lle mae unigolyn yn gwrthod cymryd rhan mewn proses archwilio ofynnol.<br><br>Gall yr unigolyn derfynu ei daliadau uniongyrchol ar unrhyw adeg. Os bydd yr unigolyn yn marw, byddwn yn stopio'r taliadau uniongyrchol. |

## 5. Safonau

Bydd disgwyl i bob unigolyn gadw at y Cytundeb Taliadau Uniongyrchol. Mae copi o'r cytundeb ar gael mewn atodiad i'r polisi hwn.

## 7. Crynodeb o Weithdrefn a Dyletswyddau Allweddol

| Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y Cyngor | Pryd |
|---|---|
| • Gwybodaeth hawdd ei deall, hawdd ei chyrchu i unigolion sy'n teimlo y gallai fod angen help arnynt (neu aelod o'r teulu neu'r person maent yn ei gynrychioli), gan gynnwys eu hawliau o dan y cyfreithiau. | Cyn cael mynediad at ofal a chymorth |
| • Asesiad o'ch angen, ac os ydych yn gymwys i gael gofal a chymorth bydd trafodaeth ynghylch taliadau uniongyrchol yn cael ei chynnal. | Ar ôl y cyswllt a'r asesiad cychwynnol ac wrth gael |

| | |
|---|---|
| • Bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r darparwr cymorth Taliadau Uniongyrchol, a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych am daliadau uniongyrchol.<br>• Byddwn yn cymryd yr amser i drafod "beth sy'n bwysig" i chi.<br>• Byddwn yn eich cynnwys wrth weithio allan pa ofal a chymorth fydd yn helpu i gyflawni lles i chi.<br>• Byddwn yn meddwl yn agored, yn greadigol ac yn hyblyg wrth drafod a nodi ffyrdd i'ch helpu i gyflawni'r hyn rydych ei eisiau.<br>• Esboniad o'r cymorth parhaus y byddwn yn ei ddarparu.<br>• Esboniad o'r asesiad ariannol a'r goblygiad codi tâl.<br>• Cynnig o gymorth eiriolaeth annibynnol, os oes angen. | mynediad at ofal a chymorth |
| • Bydd eich cynllun gofal a chymorth yn cael ei rannu â chi.<br>• Esboniad o'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau a sut y byddwn yn eich helpu i'w rheoli, a risgiau.<br>• Cyfrifiad taliadau cywir a theg, a threfniadau talu sy'n diwallu eich anghenion.<br>• Eglurder ar beth sy'n digwydd gydag arian heb ei wario a'i ddefnydd i gyflawni eich canlyniadau personol y cytunwyd arnynt. | Wrth sefydlu'r taliadau uniongyrchol i ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth |
| • Bydd y darparwr cymorth yn cynorthwyo gyda drafftio disgrifiad swydd/hysbyseb, trefnu/mynychu unrhyw gyfweliadau gyda darpar CPau.<br>• Mae'n rhaid i Fro Morgannwg sicrhau bod gwiriadau GDG boddhaol ar waith ar gyfer pob cynorthwyydd personol yn unol â deddfwriaeth a chytundeb contract a'u bod yn cael eu hadnewyddu bob 3 blynedd. Bydd y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn gyfrifol am sefydlu unrhyw wiriadau GDG newydd yn ogystal â chwblhau'r broses dilysu hunaniaeth. Mae hyn cyn i'r pecyn ddechrau. | Wrth recriwtio CP |
| • Gwybodaeth, cyngor a chymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Darparwr Cymorth Taliadau Uniongyrchol.<br>• Trefniadau monitro hawdd eu defnyddio.<br>• Gwybodaeth reolaidd ac amserol am wariant yn erbyn y gyllideb.<br>• Adolygiadau rheolaidd, amserol i asesu pa wahaniaeth y mae'r gofal a'r cymorth wedi'i wneud ac i nodi a goresgyn unrhyw broblemau a allai godi wrth gyflawni eich canlyniadau y cytunwyd arnynt.<br>• Trefniadau symlach ar gyfer cytuno ar unrhyw addasiadau mewn ymateb i angen sy'n newid. | Tra bod taliadau uniongyrchol yn cael eu derbyn |

## 8. Cymeradwyo ac Adolygu’r Polisi

| | |
|---|---|
| Cymeradwywyd y Polisi gan: | |
| Dyddiad Cymeradwyo: | |
| Amlder adolygu: | Bydd yn cael ei adolygu mewn 1 flwyddyn ac yna bob tair blynedd |
| Dyddiad adolygu'r polisi: | Mai 2025 |
| Swyddog(ion) Cyfrifol: | |

## 9. Atodiad

Mae copi o'r Cytundeb Taliadau Uniongyrchol Safonol ar gael isod mewn fersiynau y gellir eu lawrlwytho a’u darllen. Sylwch fod Cytundebau Taliadau Uniongyrchol eraill ar gyfer Person Addas a threfniadau amgen eraill. Mae'r rhain ar gael ar gais.

DP AGREEMENT - STANDARD.DOC

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**CYNGOR BRO MORGANNWG** CYTUNDEB TALIADAU UNIONGYRCHOL

Mae hwn yn gytundeb wedi'i lofnodi ar gyfer Taliadau Uniongyrchol rhwng [*Enw a chyfeiriad y defnyddiwr gwasanaeth]* ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg.

Diben y Cytundeb hwn yw nodi eich cyfrifoldebau a'ch rhwymedigaethau wrth gytuno i dderbyn Taliadau Uniongyrchol a'r hyn y mae'n rhaid i’r Gwasanaethau Cymdeithasol ei wneud wrth ymrwymo i'r trefniant hwn.

Fe'ch cynghorir i ddarllen trwy'r Cytundeb Taliadau Uniongyrchol a'r "Canllaw Defnyddiwr ar Reoli Taliadau Uniongyrchol" sydd wedi'i amgáu gyda'r Cytundeb.

Yna llofnodwch y ddau gopi o'r Cytundeb a dychwelwch un gyda'r Ffurflen Manylion Banc wedi'i llenwi yn yr amlen barod a ddarperir.

## Rhwymedigaethau/Cyfrifoldebau Defnyddiwr Gwasanaeth

Yn gyfnewid am dderbyn Taliadau Uniongyrchol, bydd y Defnyddiwr Gwasanaeth yn:

- Trefnu gwasanaethau gofal yn unol â'r Asesiad/Cynllun Gofal cyfredol ac wrth wneud hynny, cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a allai godi.
- Sicrhau bod Cynorthwywyr Personol a gyflogir gan y Defnyddiwr Gwasanaeth wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion y Defnyddiwr Gwasanaeth.
- Sicrhau bod pob darpar Gynorthwyydd Personol yn cael gwiriad Datgelu a Gwahardd cyn cyflogaeth. Ni ddylid cyflogi unrhyw gynorthwywyr personol heb i ddatgeliad GDG boddhaol gael ei ddychwelyd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw Gynorthwywyr Personol sy'n cael eu cyflogi ar ôl i'r Taliadau Uniongyrchol cychwynnol gael eu sefydlu.
- Sicrhau bod Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr hyd at y lefel ofynnol (£10,000,000 o Atebolrwydd Cyflogwyr a £5,000,000 o Atebolrwydd Cyhoeddus) ar waith bob amser.
- Sicrhau nad yw unrhyw Gynorthwyydd Personol a gyflogir gan y Defnyddiwr Gwasanaeth yn byw yn yr un cartref, oni bai bod Cyngor Bro Morgannwg wedi cytuno ar hyn ymlaen llaw.
- Sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu gwario ar wasanaethau ar gyfer anghenion y Defnyddiwr Gwasanaeth yn unig fel y nodir yn yr Asesiad/Cynllun Gofal ac nad oes gwariant ar unrhyw wasanaethau sy'n gyfrifoldeb i sefydliadau eraill eu darparu, e.e. Iechyd.
- Agor cyfrif banc ar wahân y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn talu Taliadau Uniongyrchol iddo ac y bydd yr holl daliadau yn cael eu gwneud ohono.
- Sicrhau bod eich Tâl Asesedig, os o gwbl, yn cael ei dalu'n rheolaidd i'r cyfrif hwn. Gall methu â gwneud hynny arwain at eich cyfrif Taliadau Uniongyrchol yn mynd i ddyled.
- Cadw cofnodion a derbynebau priodol i ddangos bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n briodol i ddiwallu eich anghenion gofal a sicrhau bod dogfennau o'r fath ar gael ar alw at ddibenion adolygu/archwilio. Dylid cadw cofnodion o'r fath am o leiaf 7 mlynedd.
- Llenwi ffurflenni monitro misol a'u hanfon at y Swyddog Datblygu Taliadau Uniongyrchol, ynghyd â chyfriflenni banc a slipiau cyflog bob chwarter yn ôl y gofyn.
- Ystyried y cymorth sydd ar gael naill ai gan Ganolfan Byw’n Annibynnol Dewis a/neu gan y Swyddog Datblygu Taliadau Uniongyrchol.
- Cydweithredu â Chyngor Bro Morgannwg i adolygu'r gwasanaeth a ddarperir. Os, ym marn y Cyngor, nad yw ansawdd y gwasanaeth a drefnwyd yn briodol, rydych yn cytuno i wneud newidiadau y mae’r Cyngor yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.
- Ad-dalu i Gyngor Bro Morgannwg unrhyw Daliadau Uniongyrchol nad ydynt wedi'u gwario i ddiwallu anghenion y Defnyddiwr Gwasanaeth yn ôl y gofyn.
- Ad-dalu i Gyngor Bro Morgannwg unrhyw Daliadau Uniongyrchol neu unrhyw ran ohonynt, os yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn torri'r Cytundeb hwn, neu os yw marwolaeth y Defnyddiwr Gwasanaeth yn digwydd wrth dderbyn Taliadau Uniongyrchol.
- Mae'n gyfrifoldeb ar y Defnyddiwr Gwasanaeth i roi gwybod i Gyngor Bro Morgannwg am unrhyw newidiadau i’w drefniadau byw a allai effeithio ar ei gymhwysedd i barhau i dderbyn Taliadau Uniongyrchol. Mae newidiadau o'r fath yn cynnwys symud i Awdurdod Lleol arall neu gyflogi perthynas agos sy'n byw yn yr un cartref. Gall methu â datgelu'r wybodaeth hon arwain at dynnu Taliadau Uniongyrchol yn ôl.

# Rhwymedigaethau/Cyfrifoldebau Cyngor Bro Morgannwg

Bydd Cyngor Bro Morgannwg wrth wneud Taliadau Uniongyrchol yn:

- Cynnal Asesiadau Ariannol.
- Cyhoeddi Cytundeb/Contract.
- Cynnal ac ariannu ar ran y Defnyddiwr Gwasanaeth wiriadau GDG Manwl ar gyfer pob darpar Gynorthwyydd Personol.
- Os bydd datgeliad GDG yn datgelu canlyniad andwyol neu os bydd unigolyn yn gwrthod i un gael ei gynnal, mae Cyngor Bro Morgannwg yn cadw'r hawl i wneud ymholiadau pellach ac amgen ac, yn ôl ei ddisgresiwn, gwrthod yr hawl i wneud Taliadau Uniongyrchol.
- Gwneud 4 taliad wythnosol i gyfrif banc y Defnyddiwr Gwasanaeth.
- Cynnal archwiliadau ariannol.
- Adolygu'r pecyn gofal o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Creu contract gyda sefydliad Annibynnol i ddarparu gwasanaeth cyngor, gwybodaeth a chymorth cynhwysfawr i dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol.
- Yn achos cyfnod estynedig mewn ysbyty, bydd y Cyngor yn parhau i dalu swm llawn y Taliadau Uniongyrchol am gyfnod o 6 wythnos, ac ar gyfradd o 50% am bythefnos arall. Bydd hyn yn galluogi cadw cymorth y Cynorthwyydd Personol ac osgoi'r angen am recriwtio pellach. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o'r sefyllfa. Ar ddiwedd y cyfnod 8 wythnos hwn, bydd taliadau'n dod i ben nes y bydd y Defnyddiwr Gwasanaeth yn cael ei ryddhau.

## Cyngor Bro Morgannwg

Hyd y gwn i, rwy'n credu bod [ ] yn fodlon derbyn Taliadau Uniongyrchol ac yn gallu, gyda'r cyngor a'r cymorth sydd wedi'u trefnu, rheoli Taliadau Uniongyrchol.

Llofnod ____________________________________________

Dyddiad____________________________________________________

Louis Burrows
Swyddog Datblygu Taliadau Uniongyrchol
Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfa’r Dociau
Heol yr Isffordd
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RT

## Defnyddiwr Gwasanaeth

Rwyf i [ ] wedi darllen a deall fy nghyfrifoldebau fel y nodir yn y Cytundeb Taliadau Uniongyrchol ac yn cadarnhau fy mod i’n dymuno derbyn Taliadau Uniongyrchol.

Llofnod ____________________________________________

Dyddiad____________________________________________________